

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 225

Pris £1

Mis Awst 2020



Montevideo, Uruguay - tudalen 2

Wedi ffarwelio â Brasil, dyma Ianio yn ninas anferth Buenos Aires yn yr Ariannin. Ar ôl noson o gwsg dyma anelu yn gynnwys y bore canlynol am y porthladd er mwyn dal fferi ar draws y River Plate i dref Colonia yn Uruguay, taith o ryw ddwy awr. Efallai bod rhai yn cofio'r ffilm (eithaf enwog) Battle of the River Plate. Dyma'r union fan. Wedi glanio, syth â ni ar y bws am daith dwy awr arall i ddinas Montevideo. A dweud y gwir, diflas oedd yr olygfa trwy ffenest y bws trwy gydol y daith, heblaw am arwydd cyfarwydd iawn yn dangos y ffordd i dref Fray Bentos. Does dim angen dweud rhagor.

Yr argraff gyntaf o Montevideo oedd ei bod yn ddinas gymharol fach ac er bod adeiladau hardd iawn ar hyd y brif stryd roedd rhyw naws ei bod yn llawer tlotach na BA.

Arhoson ni yn ardal yr hen dref yn agos at y porthladd a dyma ein profiad cyntaf ond yn sicr nid yr olaf o fwyd *parilla*, sef "grill". Mae cig yn rhan bwysig iawn o economi Uruguay a'r Ariannin ac yn rhad iawn o'i gymharu â Chymru a dweud y lleiaf. Yn yr hen farchnad roedd pob stondin yn *parilla*, yn coginio cig eidion yn bennaf, a'r fflamau yn gwneud y lle yn chwilboeth. Ond sôn am joio.

Wedi deuddydd yn crwydro'r strydoedd daeth yn amser i ddychwelyd at y bws i Colonia. Dyma dref gymharol fach ac erbyn heddiw mae'r ardal hynaf yn un o safleoedd treftadaeth y byd ac yn ddymunol iawn i grwydro o'i



chwmpas. Buan daeth yr amser i groesi'n ôl i Buenos Aires.

Wedi ychydig o waith ymchwil cyn gadael Cymru roeddem wedi penderfynu aros yn ardal Recoleta yn BA. Dyma ardal

dra lewyrchus yn frith o barciau dymunol ac adeiladau hardd. Mae Recoleta wrth gwrs yn enwog am un safle arbennig, sef ei mynwent.

Yma mae merch enwocaf y wlad, Eva Peron, wedi ei chladdu. Er mai dim ond y cyfoethog a'r enwog sydd yn cael y fraint o orffwys yma, mae o'n le hynod o ddiddorol.



Buom yno ddwywaith yn crwydro'r ffyrdd cul rhwng y rhesi diddiwedd o feddau oedd fel tai bychan. Mae Eva wedi'i chladdu ym mawsolëwm ei theulu, sef y teulu Duarte.

Digon o sôn am feddau. Un ardal oedd yn rhaid ymweld â hi oedd ardal La Boca sydd yn enwog am ei stadiwm pêl-droed lle bu Maradona a Messi yn chwarae. Yn yr ardal yma hefyd, ac i mi yn llawer mwy diddorol, mae Caminito, sef amgueddfa stryd. Dyma'r lle mwyaf lliwgar i mi ei weld erioed. Wrth gwrs roedd popeth wedi ei anelu at ymwelwyr ond roedd naws hyfryd yno a nifer yn dawnsio'r tango ar y stryd. Cofiwch, gwell ymweld yn ystod y dydd, mae'n lle peryglus wedi iddi nosi.


Pleser oedd crwydro Plaza de Mayo, man canolog y ddinas, hefo'i phalas pinc, a tharo i mewn i'r eglwys gadeiriol lle bu'r Pab cyfredol yn Archesgob. Mae'r sgwâr hefyd yn gyrchfan i brotestiadau rheolaidd. Un o'r rheiny ydy mamau'r plaza, protest a ddechreuodd yn 1977. Mae grŵp o ferched, rhai mewn gwth o oedran erbyn hyn, yn ymgynnull yno bob dydd iau yn gwisgo sgarffiau gwyn am eu pennau ac yn cario lluniau o'u plant neu frodyr a chwiorydd. Dyma'r rhai a ddiflannodd yn ystod y 70au a'r 80au pan oedd y wlad o dan reolaeth y llywodraeth filitaraidd.

Wrth gerdded i ardal San Telmo anodd oedd peidio â sylwi ar enwau nifer o bobl ar y palmentydd. Atgof arall am y rhai a ddiflannodd yn ystod y cyfnod erchyll hwnnw. Yn San Telmo mae nifer o barciau a hyfryd oedd mwynhau panad yn gwylio cyplau'n dawnsio'r tango. Tipyn bach fel "*Strictly*" a dweud y gwir. Yma eto roedd yr hen farchnad yn llawn o *parillas* a stondinau bwyd bendigedig.

Wrth grwydro'n ôl i Recoleta cawsom gip ar yr Obelisk sy'n sefyll ynghanol y ffordd letaf yn y byd yn y Plaza de la Republica. Yma mae rhyw chwe rhes o draffig yn mynd i bob cyfeiriad. Mae'n cymryd tipyn o amser i groesi. Nid nepell oddi yno mae'r Teatro Colon, y tŷ opera chwaethus. A dweud y gwir mae Buenos Aires yn orlawn o adeiladau a chofgolofnau bendigedig. Buan iawn daeth ein hymweliad i ben a rhaid oedd hel ein pac ar gyfer rhan nesaf o'r daith. Tan y tro nesaf felly....

Anwen Hill

Y DELYNORES A'R CEILIOG



Nansi Richards oedd Telynores Maldwyn. Ganwyd hi ym Mhenybontfawr yn 1888 a bu farw noswyl Nadolig 1979 a'i chladdu ym Mhennant Melangell. Mynychodd Goleg y Guildhall yn Llundain a bu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol dair gwaith yn olynol, y tro cyntaf yn y Genedlaethol yn Llangollen yn 1908. Penodwyd hi'n delynores swyddogol i'r Tywysog Siarl.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd teithiodd hyd a lled gwledydd Prydain gydag ENSA i ddiddori'r milwyr a chymerodd ran mewn dros 2,000 o gyngherddau gyda Chôr Telyn Eryri o 1930 ymlaen. Perfformiodd droeon o flaen Teulu Brenhinol Lloegr a chafodd yr hawl gan George V i arddel y teitl "Y Delynores Frenhinol", ond dewis peidio a'i arddel a wnaeth. Derbyniodd MBE ym 1973 am

ei chyfraniad i gerddoriaeth Cymru. Ym 1977 cafodd radd Doethur er Anrhydedd mewn cerddoriaeth gan Brifysgol Cymru .

Bu'n gweithio ar ffilmiau Emlyn Williams *The Last Days of Dolwyn* a *Fruitful Years*. Yn ystod ei gyrfa, gweithiodd yn aml yn yr Unol Daleithiau ym 1923 ac eto yn Efrog Newydd ym 1973. Mae'n debyg mai yn ystod y teithiau hyn y daeth hi'n gyfaill i William Kellogg, perchennog y cwmni sy'n cynhyrchu creision yd, a honnir mai hi awgrymodd wrtho ddefnyddio ceiliog ar y paced gan iddi ddweud wrth Kellogg fod ei enw'n swnio'n debyg i'r gair Cymraeg am "cockerel". Hoffodd Kellogg hyn ac yn fuan roedd llun ceiliog ar y boc a dywedir hefyd iddo liwio'r aderyn yn lliwiau baner Cymru.

Diolch i Byron Shide a Mark Rees am ddod â'r erthygl ddiddorol hon i'n sylw



'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'

Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gennych mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar ruthcjones25@aol.com

Diwedd y gan yw'r geiniog ...

...neu'r ddime, neu'r ffyrlling.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf rwy wedi dod yn gyfarwydd â mynd allan o'r tŷ heb geiniog yn fy mhoced; mae pawb erbyn hyn ishe plastig. Ydi hyn yn golygu newid yn y ffordd byddwn yn gwario arian yn y dyfodol?

Os ydy hynny'n wir, nid hwn fydd y tro cyntaf i ni newid ein ffordd o ddefnyddio arian. Roedd 'na newidiadau mawr tua diwedd y 18fed ganrif. Roedd y Chwyldro Diwydiannol yn ei anterth, miloedd o bobol yn symud o'r wlad i'r trefi. Rhwng 1750 a 1800 roedd poblogaeth Prydain wedi cynyddu bedair gwaith a'r gofynion am arian mân yn codi i'r entrychion i dalu'r gweithwyr newydd. Ond roedd y Bathdy Brenhinol yn methu ymdopi.



Rhwng 1773 a 1821 methodd y Bathdy Brenhinol gynhyrchu unrhyw arian mân o gwbl. Cyn amser Thomas Williams doedd dim min ar arian. Roedd hyn yn gwneud pethau'n haws i dwyllwyr "glipio" ochr yr arian a gwneud arian ffig. Erbyn diwedd y 18fed ganrif doedd gan neb ffydd yng ngwerth arian y Llywodraeth.

Yn 1768 darganfuwyd yr haenen gopr fwyaf ym Mhrydain ar Fynydd Parys yn Sir Fôn. Copr oedd y defnydd i wneud darnau ceiniogau, dimau a ffyrlling. Y person sydd yn cael ei gysylltu yn bennaf gyda Mynydd Parys yw Thomas Williams, Llanidan, cyfreithiwr ac Aelod Seneddol. "Twm Chwarae Teg" oedd e i'w weithwyr a'r "Copper King" i'r byd.

Erbyn 1785 roedd dwy ran o dair o arian y wlad yn ffug. Cynigiodd Thomas Williams system i'r Bathdy Brenhinol drwy osod ysgrifen o gwmpas y darn arian. Roedd hyn yn fodd o wneud ffugio a chlipio yn anoddach; ond gwrthodwyd y cynnig.



Felly yn 1787 dechreuodd Thomas Williams a Chwmni Mynydd Parys gynhyrchu ceiniogau gyda llun derwydd ar un ochr a'r llythrennau PMC ar y cefn. Un o'r cyntaf, ac yn sicr y pwysicaf, o'r miloedd o "docynnau" a gynhyrchwyd yn ystod y blynyddoedd canlynol. Yn 1788 dechreuodd Cwmni Mynydd Parys gynhyrchu darnau dimau hefyd.

Yn gyflym iawn copiwyd system Thomas Williams ac roedd nifer fawr o ffatrïoedd, trefi, dinasoedd a hyd yn oed siopwyr unigol yn cynhyrchu arian. I mi mae tocynnau yn fwy diddorol nag arian "iawn". Mae yna docyn yn dangos y bont haearn gyntaf yn Ironbridge a nifer o weithfeydd yn ogystal. Mae hyd yn oed tocyn dinas Coventry yn dangos Ledi Godeifa yn noethlymun ar gefn ei cheffyl. Bathwyd tocynnau yn gwrthwynebu caethwasiaeth ac yn cefnogi'r rhai oedd wedi cael cam gan y Llywodraeth neu'r llysoedd. Mae hyd yn oed un tocyn yn yr iaith Gymraeg yn dangos lestyn ap Gwrgan.



Dwy broblem oedd i'r system. Roedd ond yn bosib newid yr arian mewn siopau neu ardaloedd arbennig. Ddim ond yn Llundain, Lerpwl a Sir Fôn roedd yn bosib defnyddio arian Mynydd Parys. Yn sgil y system roedd rhai cyflogwyr yn mynnu bod y gweithwyr yn hala'r arian yn siopau'r cwmni ac yn codi crocbris am nwyddau. Rhain oedd y siopau a ddaeth i gael eu galw'n *truck shops*.

Aeth y system ymlaen tan i'r Llywodraeth wella arian ac yn 1817 gwnaethpwyd cynhyrchu tocynnau yn anghyfreithlon. Yn 1831 daeth y *Truck Act* â siopau'r cwmnïau i ben.

Daeth y tocynnau hyn mor ddiddorol fel y dechreuwyd eu casglu nhw'n syth. Un o'r casglwyr cyntaf oedd dyn o'r enw Conder, ac mae'r tocynnau yn dal i gael eu galw'n *Conder tokens*.

Allan Cook

Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes
yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



CANLYNIAD Y SLAP

Un diwrnod oddeutu'r flwyddyn 1913, chwaraeai bachgen bach tua wyth mlwydd oed yn y stryd yn Nhreganna gydag Arthur, ei frawd, a oedd ddwy flynedd yn iau nag ef. Hwylodd menyw ddieithr heibio. Oedodd. Clustfeiniodd. Yna gofynnodd iddo: *'Were you two talking Welsh?'* *'Yes'*, atebodd yntau. *'Well, take that!'* meddai; a disgynnodd clatsien ar draws ei foch, a honno'n un mor galed nes gwneud iddo wegian ar ei draed. Aeth y fenyw ymlaen yn dalog ar ei thaith, gan ymfalchïo, mae'n siŵr, ei bod wedi gwneud ei dyletswydd ymerodrol a dysgu gwers i'r anwariad bach.

Aeth y glatsien honno maes o law yn rhan o chwedloniaeth hanes y Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn wir, mae'n enghraifft berffaith o 'ddeddf y canlyniadau anfwriadol', oherwydd heb y slapen honno, mae'n bosibl y byddai hanes y Gymraeg yn eithaf gwahanol, ac nid yng Nghaerdydd yn unig, ond ymhell y tu hwnt.

Yr un a dderbyniodd y glatsien oedd William Clifford Elvet Thomas (1905–94), a fu'n dysgu yn Ysgol Uwchradd Cathays i Fechgyn rhwng 1929 ac 1969 ac a alwyd gan yr Athro Bobi Jones 'yn un o athrawon Cymraeg mwyaf dylanwadol Cymru'. Ysbrydolodd Elvet Thomas genedlaethau o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Cathays, y rhan fwyaf o lawer ohonynt yn dod o gartrefi di-Gymraeg, i ddysgu'r iaith ac i garu Cymru a'i diwylliant. Mae'r rhestr yn un faith a nodedig, ac yn cynnwys tri a ddaeth maes o law yn ddarlithwyr prifysgol yn y Gymraeg: Bobi Jones (1929–2017), E. G. Millward (1930–2020) a Gilbert Ruddock (1938–98).

Ganed Elvet Thomas yn Abergwaun ond ymgartrefodd y teulu yn 65 Alexandra Road yn Nhreganna tua diwedd 1905, pan oedd yn naw mis oed, a'i dad erbyn hynny'n gysodydd yn swyddfa papur newydd Rhyddfrydol Caerdydd, y *South Wales Daily News*. Ar ddechrau ei hunangofiant, *Tyfu'n Gymro* (1972), mae Elvet Thomas yn nodi mai delfrydau ei rieni 'ymhell cyn bod sôn am Urdd Gobaith Cymru [oedd] delfrydau'r Urdd – bod yn ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist'. Dywed hefyd eu bod yn benderfynol o godi eu plant yn 'Gymry da a allai siarad Cymraeg a charu Cymru', er gwaetha'r hyn a ddywedai 'rhai o grach-Gymry taeogaidd Caerdydd – ac yr oedd digon ohonynt yr adeg honno [...] – mai ffwlbrï oedd meddwl am godi plant yn Gymry Cymraeg mewn lle fel Caerdydd'. A thrwy eu penderfyniad di-ildio a'u cadernid di-syfl, fe lwyddodd rhieni Elvet Thomas i godi eu tri mab yn siaradwyr Cymraeg, er gwaethaf pob gwrthwynebiad a'r 'môr o Saesneg' a'u hamgylchynai (ac eithrio'r capel Cymraeg yn Severn Road), a hynny mewn dyddiau ymhell cyn bod sôn am ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.


Fel y gwelwn o'i hanes, fe rannai Elvet Thomas yr un delfrydau Cristnogol Cymreig â'i rieni, a'r un penderfyniad di-ildio i hybu'r Gymraeg a'i diwylliant. Mae Bobi Jones yn ei hunangofiant, *O'r Bedd i'r Crud* (2000), yn trafod cyfrinach llwyddiant Elvet Thomas fel athro Cymraeg. 'Nid damwain na chyd-ddigwyddiad oedd hi, mae'n rhaid,' meddai, 'fod cynifer o lafnau ifainc yn gyson wedi ymrwymo i fywydau o wasanaeth i'r iaith Gymraeg wedi treiglo drwy'i ddwylo ef'; a daw i'r casgliad nad ei ddulliau dysgu oedd yn gyfrifol am hynny – digon ceidwadol oedd y rheini, a ffurfiau llenyddol y Gymraeg yn cael eu cyflwyno i'w ddisgyblion heb unrhyw bwyslais ar yr iaith lafar. Cyfrinach ei lwyddiant, yn hytrach, oedd iddo ddysgu iddynt am Gymru a'i hanes, a cheisio ennyn ynddynt 'gariad angerddol at Gymru a'i hiaith a'i llenyddiaeth'. Ac i brofi ei bwynt, mae Bobi Jones yn adrodd hanesyn difyr am ei athro yn cyflwyno cerdd I. D. Hooson, 'Daffodil', i'r dosbarth:

Dyma ef yn darllen y pennill cyntaf ac yn ei gyfieithu inni. 'Yn dawnsio yn y gwynt a'r glaw/ I bibau pêr rhyw gerddor cudd.' 'Ai' ebychai ef wedyn, 'mae honna gystal bob tamaid â Wordsworth!' Ac efallai, am ddeg eiliad, wel am bump o leiaf, efallai'n bod ni wedi'i goelio, fel yr oedd plant yn tueddu i'w wneud gydag athrawon yn y dyddiau llesmeiriol hynny. Wedyn darllenai'r ail bennill am y Daffodil yn gaeth mewn llestr pridd. 'Mae hwnnw yn well na Wordsworth.' Dyddiau braf!

Ac un o'r pethau a roddai'r cryfder a'r unplygrwydd i Elvet Thomas weithio'n ddiflino dros y Gymraeg a'i diwylliant oedd y slap a dderbyniodd yn Nhreganna pan oedd tua wyth oed, oherwydd fe losgai'r geiriau *'Take that!'* yn hwy o lawer nag ôl y bysedd ar ei foch. Meddai am y glatsien honno a'r wers a roddodd iddo: 'O'r dydd hwnnw, gwyddwn fod gan y Gymraeg ei gelynyddion [...]. Er fy mod mor ifanc roeddwn i'n dechrau deall safiad cadarn fy rhieni o blaid y Gymraeg ac yn teimlo'n falch iawn ohonynt hefyd.'

Nid rhyfedd, felly, i'r slap honno fynd yn rhan o lôn gwerin y Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae'r canwr Geraint Jarman, un arall o ddisgyblion Elvet Thomas yn Ysgol Cathays, yn cyfeirio ati yn ei gerdd 'Strydoedd Cul Pontcanna':

A'r slap wrth dyfu'n Gymro
sy'n rhwygo'r rhuddin ynddo
cyn troi yn sant,
cyn troi yn sant.



Ac fe roddodd Dr Dylan Foster Evans yr enw 'Stryd y Slap' ar arhosfan rhwng Treganna a Lecwydd ar ei fap o 'Gaerdydd Danddaearol', er nad yw, meddai, 'yn lleoliad penodol nac yn enw swyddogol', er mwyn 'coffáu digwyddiad nodedig yn hanes y Gaerdydd Gymraeg' (gweler ei flog, 'Diferion o'r Pwll Coch', 26 Mehefin 2017).

Mae un arall o ddisgyblion disglair Elvet Thomas, sef Dr E. G. Millward, a fu farw yn gynharach eleni, yn sôn yn ei hunangofiant yntau, *Taith Rhyw Gymro* (2015), am ddylanwad ei hen athro arno, gan gynnwys y ffordd y cyflwynodd Gymru iddo mewn ffordd fyw a thrawiadol iawn yn ystod haf 1947, pan oedd Tedi Millward yn y chweched dosbarth, oherwydd yr adeg honno aeth Elvet Thomas ag ef a rhai o'i ddisgyblion eraill ar daith gerdded o ryw 550 milltir o gwmpas Cymru.

Buont yn aros yng nghartrefi siaradwyr Cymraeg ac yn rhai o ganolfannau'r Urdd, gan ymweld â mannau o bwys hanesyddol. Roedd y cyfan yn agoriad llygad i'r Tedi Millward ifanc, a allai ddweud mai Merthyr Tudful oedd ei Gymru cyn hynny, oherwydd ei gysylltiadau teuluaid â'r dref honno.

Bu'r daith gerdded honno'n drobwynt mawr iddo, nid lleiaf, meddai, am iddo gael y profiad amheuthun o gymysgu â charfannau o bobl ifanc ar draws y wlad 'a oedd yn cael blas arbennig ar fyw trwy'r Gymraeg, profiad newydd a hynod werthfawr i mi'; a chanlyniad y profiad hwnnw oedd 'dechrau hau hedyn yr awydd ynof i fod yn un ohonynt'.

Aeth Tedi Millward yn ei flaen i gael 'blas arbennig ar fyw trwy'r Gymraeg'. Ymserchodd yn ei diwylliant, gan ddod yn un o'n hawdurdodau pennaf ar lenyddiaeth Gymraeg Oes Victoria. Ef hefyd oedd un o brif sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn 1962, ac yn gyd-Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas honno gyda Dr John Davies (Bwlch-Ilan). Felly, ar un wedd, nid gormod yw hawlio mai un o ganlyniadau'r slap honno yn Nhreganna tua 1913 oedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg!

Nid rhyfedd i Bobi Jones ddweud, a'i dafod yn ei foch, y dylid dyrchafu menyw'r slap dyngedfennol honno'n nawddsantes, am iddi drwy nerth ei dwrn gychwyn Elvet Thomas ar ei daith ffrwythlon a dylanwadol: 'o blaid yr iaith,' meddai, 'diau i lawer un wneud llai na hi'! A da iawn fyddai gweld codi plac yn Alexandra Road yn Nhreganna i gofio am gyfraniad nodedig W. C. Elvet Thomas, ac i gofio am y slap.

Ymddangosodd yr erthygl hwn gyntaf yn rhifyn mis Mehefin 'Y Dinesydd' a theimlwyd ei fod yn werth ei rhannu gyda darllenwyr "Cwmni". Mae'r Athro E. Wyn James yn cynnal dosbarth Eisteddfota yng Nghaerffili bob blwyddyn a 'Llys a Llan' yw teitl ei golofn fisol ym mhapur bro y brifddinas. Diolchwn i olygyddion 'Y Dinesydd' ac i Wyn am ganiatâd i adgynhyrchu erthygl ddiddorol iawn. Gol.

Colofn Dafydd Isgwyn

Yn fy nyddiadur Englyn Pob Dydd ar 28ain o Awst 2017 cofnodais yr englyn cywaith yn Ymryson y Beirdd, Plaid Cymru yn Ysbyty Ifan. Testun yr englyn oedd “Lewis Valentine” a dewisais un tîm Dinbych:

Clyw eco’i fflamiau’n clecian – trwy erwau
Daeir ir ei winllan
Ar hyd ei oes bu ar dân,
Ei obaith oedd y triban.

Tîm Dinbych ar noson yr ymryson ar y bedwaredd ar ddeg o Fawrth 1986 oedd, Desmond Healey, Berwyn Roberts, John Gwilym Jones a Moi Parri.

Deuthum yn gyfarwydd â’r enw Moi Parri fel englynwr trwy Golofn Meuryn, y prifardd R. J. Rowlands (1880-1967) Caernarfon, yn Y Cymro ganol y chwedegau. Yn rhifyn y 25ain o Chwefror 1965 meddai Meuryn: “Afraid dweud bod eich dau englyn chithau Morus Wyn Parry yn gwbl gywir, ac yn dda hefyd. Hyfryd iawn eich clywed mor gadarn â minnau eich ffydd ym mharhad yr iaith Gymraeg. Oes y byd iddi, a phob hwyl i chwithau glecian ei phersain eiriau.”

Y Bywydfad
Cwch bywyd diwyd y don – a elwir
I hwyllo mor gyson,
I warchod o’r gwaelodion
Ryw forwr dewr o ferw’r don.

Dyfodol y Gymraeg
Nid oes neb mewn dwys anobaith – mae ffydd
Am ffawd ein gwiw heniaith,
Mae yma bob rhyw obaith
Am hir oes ddi-gam i’r iaith.

Wrth yr englynion cofnodir Morus Wyn Parry yn un ar bymtheg oed, Ysgol Botwnog. Yn rhifyn yr 22ain o Ebrill 1965 cyhoeddwyd ei englyn “Wedi Marw” ac meddai Meuryn, “Peth rhyfedd gweld hogyn mor ifanc â chwi yn sôn am farwolaeth o bopeth. Brysiwch yma eto.” Yn rhifyn y 29ain o Ebrill 1965 cyhoeddwyd ei englyn “Y Gorlan” ac wrth ei gyflwyno dywedodd Meuryn, “Yr ydych chi yn cynganeddu’n rhwydd a naturiol iawn.”

Yn y dyddiadur Englyn Pob Dydd am y 1af o Fai 2019 cofnodais englyn “Cofio” gan Moi:

Ein hanes sydd nerth i inni – a’n harwyr
Yr hiraeth sy’n peri
Y deil baner Cilmeri
Yn y co’ i’n herio ni.

Cofnodais yr englyn am fod y llinell gyntaf yn addas i gofio'r hanesydd Anthony D. Carr, a fu farw ar y 30ain o Ebrill 2019.

Testun cystadleuaeth Englyn y Mis, Mawrth 1974 oedd Yr Etholiad Cyffredinol y flwyddyn honno. Cyhoeddwyd ym mis Ebrill mai Moi Parri oedd yr enillydd:

Ddoe kannwyll oedd y cynnydd – a rhyddid
Ond breuddwyd yr hwyrdddydd;
Heddiw gallaf myn Dafydd
Weld y wawr a golau dydd.

Yn yr etholiad hanesyddol hwnnw cipiodd Dafydd Wigley sedd Caernarfon a Dafydd Elis Thomas un Meirionydd. Ym mis Awst 2010 cyhoeddodd Moi gasgliad o’i englynion, “Pentwr o 100 o Englynion Moi”, i godi arian i Blaid Cymru. Ryw bythefnos ar ôl y cyhoeddiad tynnais ei goes fy mod i wedi anwybyddu'r gyfrol am nad oedd ei englyn “Dychryn” ynddi. Englyn a gyhoeddwyd yn Y Faner ar yr 20fed o Awst 1967,

Ai ellyll sy tu allan – neu ysbryd
Dychrynllud o’r winllan?
I hen foi mewn carafan
Oes gwaeth na sgrech ysguthan?


Y fi oedd yr “hen foi” a gwyfan fôr oedd yn cerdded ar do y garafan a’m cododd! Mae hawl gan englynwr i anwybyddu ffeithiau!

Mae Moi hefyd yn dalrynwr profiadol. Bu’n aelod o dîm Llangwm ac ers blyneddau yn aelod o dîm Tegingel. Un o’i englynion mwyaf adnabyddus o’r Talwrn yw un yn cynnwys llinell adnabyddus,

‘Pan feddwn dalent plentyn’ y lluniais
Sawl llinell ac englyn
Ond yr awr a’m doniau’n hŷn
Wyf oracl ac yn Feuryn!

Ymddeolodd Moi o’i waith fel prifathro Ysgol Bro Eilian, Bae Colwyn, yn haf 2007. Cyfarchwyd ef gan John Glyn:

Glynodd yn driw i’r glannau - a rhoi hwb
I’r iaith yn y mannau
Anodd, fel y cawn ninnau
ei gweld ar iard ac ar gae.



Tân yng Nghwm Rhymni

Dr Elin Jones

Mae golwg trist ar gapeli'r cwm ers blynnyddoedd - llawer yn sefyll yn wag, rhai wedi eu tynnu i lawr, eraill wedi troi'n dai annedd neu siopau. Mae cynulleidfaoedd wedi crebachu a heneiddio, a phwy a wŷr beth fydd y sefyllfa pan fydd y drysau sydd ar gau ers mis Mawrth yn cael agor unwaith eto?

Mor wahanol oedd hi ganrif yn ôl! Er bod y Rhyfel Byd wedi cipio bywydau lluo o ddynion ifanc y cwm, a "Ffliw Sbaen" wedi lladd llawer o bob oedran, roedd y pyllau'n dal i weithio, y siopau'n llewyrchus - a'r capeli dan eu sang. Roedd llawer o gapeli ein cwm yn gymharol newydd hefyd. Chwythodd grym tafodau tân trwy Gymru yn ystod Diwygiad Mawr 1904 - 05, a chodwyd capeli newydd ac estynnwyd eraill i gwrdd â'r ysbryd addolgar newydd ymhlith y bobl.

Yn ddiweddar, rwy wedi cael benthyg traethawd B. A. Aled Lewis, mab siop Ashborne yn Ystrad Mynach. Ei destun yw effaith y Diwygiad ar Gymru, gan ffocysu ar Gwm Rhymni yn arbennig. Mae Aled yn defnyddio lluo o ffynonellau difyr sy'n disgrifio'r cyfarfodydd tanbaid, y cymanfaoedd canu byrfyfyr, y tröedigaethau dramatig ac annisgwyl - a'r niferoedd anhygoel oedd yn mynychu'r gwasanaethau. Ym marn Aled, Sidney Evans, cyfaill bore oes Evan Roberts, oedd prif arweinydd y Diwygiad yn y cwm hwn. Ymwelodd Evan Roberts unwaith yn unig, yn Rhagfyr 1904, ond daeth miloedd yma i'w weld. Amcangyfrifwyd i 2,500 heidio i Gaerffili ar Ragfyr 5ed i wrando arno, a pharhaodd y cyfarfodydd tan bedwar o'r gloch y bore wedyn.

Pregethodd ym Methel yn hwyrach y bore hwnnw ac yn Nhonyfelin yn yr hwyr, pan aeth y cyfarfodydd ymlaen i'r oriau bach unwaith eto, a phobl wedi eu gwasgu mewn i bob sedd yn y capel mawr hwnnw.

Aeth Evan Roberts a'i gynorthwywyr ymlaen i Senghenydd ar Ragfyr 7fed. Daeth miloedd yno eto, gan gynnal cyfarfodydd gweddi yn y trenau a'u cludodd lan y cwm o Gaerdydd a Chaerffili.

Y bwriad oedd cynnal gwasanaeth y bore yng nghapel Tabernacl, ond roedd rhaid agor drysau Bethel hefyd i'r torfeydd. Yn ôl yr hanes, un o ganlyniadau llwyddiant y gwasanaeth hwn oedd dirywiad rygbi yn Senghenydd oherwydd i nifer o'r chwaraewyr roi'r gorau i'r gêm er mwyn mynd i'r capel yn gyson.

Dyna'r unig dro i Evan Roberts ei hun gynnal cyrddau yng Nghwm Rhymni, ond roedd ei ddylanwad yn treiddio trwy'r ardal, ac eraill hefyd yn barod i gynnal y gwaith. Un o'r rhain oedd Sidney Evans, a ddaeth i'n cwm ni tua diwedd Ionawr 1905, i adeiladu ar y seiliau a osodwyd gan ei gyfaill y mis blaenorol.

Cynhaliodd gyfarfodydd llwyddiannus ym Mhontlloctyn, Rhymni a Chwm Syfiog, lle bu'n annerch 1500 o bobl yng nghapel y Bedyddwyr. Cyrhaeddodd Ystrad Mynach ar Chwefror 9fed, a chynhaliodd chwe chyfarfod yn hen gapel Bethania, cyn gorffen ei genhadaeth yn Llanbradach ar Chwefror 13eg.

Nododd y papur lleol taw dim ond un achos o feddwdod ddaeth o flaen yr ynadon yn ystod yr wythnos honno - rhywbeth oedd yn peri syndod i'r gohebydd. Mae capel Bethania'n dal yn dŷ cwrdd heddiw, ond yn eiddo i'r "*Seventh Day Adventists*". Y tŷ capel wrth ei ochr yw'r capel gwreiddiol, rwy'n credu. Codwyd y capel presennol ym 1866. Yma ddaeth Sidney Evans i bregethu ym 1905.

Er na phregethodd Evan Roberts yn Ystrad Mynach aeth ef ac Annie Davies i ymweld â'r pentref un prynhawn, pan ddaethant i weld cyd-weithiwr o'r enw Sidney Evans oedd yn sâl ac yn gofalu amdano oedd Arthur Probert a'i deulu, aelodau o gapel Bethania, a oedd yn byw yn Fferm Troedyrhiw ar Twyn Road yn Ystrad Mynach Isaf. Mae'n ddigon posib iddi ganu'r emyn "Dyma gariad fel y moroedd..." i'r teulu a'r ymwelwyr.

Twm Barlwm



Yn sefyll 1,375 troedfedd uwchben Rhisga mae Twm Barlwm, ac yn ôl pob sôn Bryn Caer yr Oes Haearn oedd e, a adeiladwyd gan y Silwriaid, y llwyth Celtaidd a oedd yn byw yn yr ardal yr adeg honno. Ac ar ôl y Silwriaid fe'i ddefnyddiwyd gan y Rhufeiniaid, ac wedyn y Normaniaid.

Ac wrth gwrs mae lot o storiâu amdano. Mae un stori yn cael ei hadrodd am ysbryd gwyrdd rhyfelwr o oes y Silwriaid oedd yn dychwelyd adref o ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid. Ac yn ôl y stori bydd unrhyw un sy'n gweld ysbryd y rhyfelwr yn marw o fewn blwyddyn.

Mae stori arall yn dweud bod corff rhyfelwr Celtaidd hynafol wedi'i gladdu yno sy'n cael ei warchod gan haid o wenyn. Ac os bydd unrhyw un yn tarfu ar ei le claddu, bydd y gwenyn yn heidio, ac yn ymosod arno ac yn ei yrru i ffwrdd. Digwyddodd rhywbeth od yn ôl yn y 1980au pan oedd gweithwyr yn atgyweirio erydiad ar y twmp. Ymosododd haid o wenyn arnynt a'u gorfodi i roi'r gorau i weithio nes i'r gwenyn adael. Yna, wedi i'r gwenyn fynd, roedden nhw'n gallu dechrau gweithio eto.

Mae stori arall sy'n ymwneud â'r gwenyn ar y mynydd. Ar adegau gwahanol bu brwydrau ffyrnig ar y mynydd rhwng y gwenyn a'r gwenyn meirch (*wasps*), ac ar ôl pob brwydr roedd miloedd o gyrff o'r ddwy ochr i'w gweld, wedi'u gwasgaru ar draws copa'r mynydd. Yn ôl y stori, tylwyth teg oedd y gwenyn mewn cuddwisg, ac roedden nhw'n cynrychioli'r elfen dda, ac roedd y gwenyn meirch yn cynrychioli'r elfen ddrwg. Felly, brwydr rhwng y da a'r drwg oedd hon.

Ar un adeg roedd tŷ crand ar ochr y mynydd ger Henllys. Un noson stormus o fellt a tharanau, a glaw trwm yn cael ei yrru ar draws y mynydd, daeth hen ddyn at y drws. Roedd e'n wlyb at ei groen ac roedd ei holl gorff yn crynu gyda'r oerni. Ar ôl iddo guro ar y drws am sbel, cafodd y drws ei agor gan hen fenyw. Gofynnodd yr hen ddyn iddi a fyddai hi mor garedig â sbario rhywbeth iddo fe i'w fwyta oherwydd doedd e ddim wedi bwyta trwy'r dydd ac a allai ddod i mewn am sbel mas o'r glaw. "Dw i wedi bod ar goll ar y mynydd drwy'r dydd," meddai. "Wel," dywedodd yr hen fenyw wrtho'n grac. "Sut yn y byd allwch chi fod mor dwp â bod mas ar y mynydd ar noson wyllt fel hon? Cerwch o'ma nawr!" gwaeddodd hi wrth slamio'r drws yn ei wyneb.

Cerddodd yr hen ddyn i ffwrdd yn ddigalon ac ar ôl iddo gerdded tua hanner milltir i ffwrdd o'r tŷ, clywodd sŵn rhuo aruthrol. Ysgydodd y ddaear dan ei draed, ac wrth iddo edrych yn ôl, gwelodd y rhan o'r mynydd a oedd uwchben y tŷ yn llithro'n araf i lawr gan lyncu'r tŷ. Nid oedd yn gwybod am ba hyd fu e'n sefyll yno yn methu symud, ond wrth iddo edrych yn ôl roedd y tŷ crand a phawb oedd yn byw ynddo wedi diflannu, wedi eu lyncu gan y mynydd.

Flynnyddodd yn ôl ar Ddydd Gwener y Groglith roedd y capeli a'r eglwysi o Gwmbrân, Casnewydd a Rhisga yn arfer gorymdeithio i'r twmp yn cario baneri ac yn cwrdd gyda'i gilydd i ganu emynau yno. Dywedir fod y twmp ar y llwybr a ddefnyddiwyd gan y pererinion a oedd yn teithio ar eu pererindodau o Abaty Llantarnam i Benrhys yn y Rhondda.

Mae'r twmp yn sicr yn werth yr ymdrech o gerdded i'r copa, oherwydd mae'r olygfa o'r brig yn ffantastig, mae'n olygfa o 360°. Gallwch weld y ddwy bont Hafren, reit ar draws Môr Hafren i arfordir Gwlad yr Haf, Ynys Echni (Flat Holm) ac Ynys Ronech (Steep Holm). Ac os throwch chi o gwmpas gallwch weld yn syth lan i Fynydd Maen, a throwch o gwmpas tipyn bach mwy ac mae'n olygfa ardderchog o Benyfan a Chornddu yn y pellter.

Malcolm David

Merched y Wawr, Cwm Rhymni: Dod â'r pell yn agos

Cawsom gyfle dros y misoedd diwethaf i ddysgu mwy am ein milltir sgwâr - neu ein pum milltir sgwâr i fod yn fanwl gywir. Ond mae awydd ynom o hyd i brofi'r egstotig a'r anghyfarwydd. Braf iawn felly oedd croesawu Bethan Jones-Ollerton (Menter Iaith Caerffili) atom ym mis Gorffennaf. Daeth i'n harwain - trwy gyfrwng Zoom - i'r wlad lle treuliodd ei phlentyndod: Papiwa Gini Newydd. Roedd yn amlwg fod y wlad a'i phobl yn annwyl iawn iddi.



Bu rhieni Bethan yn dysgu mewn ysgol ryngwladol yno am flynyddoedd, a chafodd Bethan a'i brawd Eurig eu magu'n Gymry yng nghysgod y coed palmwydd ac ar lan y Môr Tawel. Daeth y teulu'n ôl i Gymru ar gyfer addysg uwchradd y plant, ond dychwelodd y rhieni yn 2007, er i ardal wahanol, a buon nhw'n byw yno tan 2016. Mae Bethan ac Eurig hefyd wedi dychwelyd sawl gwaith.

Aeth Bethan i ymweld â'i hen ysgol yn 2007 – pymtheg mlynedd ers iddi fod yno'n blentyn. Yna, dair blynedd yn ddiweddarach, ar ôl iddi raddio mewn drama, fe dreuliodd gyfnod hir ym Mhapiwa, yn trefnu gweithdai dawns a drama yn ei hen ysgol, ond hefyd ar hyd a lled y wlad. Gwyddom am ddoniau



perfformio Bethan, a gwelsom fel y llwyddodd i drosglwyddo'i sgiliau i'w disgyblion. Hyfryd oedd gweld lluniau ohonynt yn cyflwyno rhai o'u straeon a cherddi brodorol yn hyderus a phroffesiynol dan ei hyfforddiant.

O ganlyniad i'w theithiau, cawsom weld lluniau gwych o holl amrywiaeth a harddwch y tirwedd dieithr, o'r traethau i'r llosgfynyddoedd - a than y môr hefyd. Dysgodd Bethan sut i blymio tra roedd draw ym Mhapiwa Gini Newydd, er y bu'n rhaid iddi orchfygu ei hofn dirfawr o'r dŵr dwfn er mwyn gweld byd dirgel y môr. Gwelsom luniau o fywyd dan donnau'r môr, ond gwelsom y wlad oddi uchod yn ogystal. Dathlodd Bethan ei phen-blwydd yn 25 ym Mhapiwa, a hynny mewn hofrennydd. Ond atgoffodd hi ni am y daeargrynfeydd sydd yn digwydd yno, a gwelsom y difrod a achoswyd gan un ar union noson y pen-blwydd hwnnw!

Felly er mor hardd yw'r wlad, mae perygl yno hefyd. Gwelsom luniau o olion yr Ail Ryfel Byd yno, y gynau mawr yn rhydu yn y jynghl, ac adfeilion anferth amddiffynfeydd y cyfnod bellach yn lle chwarae peryglus i blant. Mae llwythau rhyfelgar yn dal i fyw yn yr ucheldir, ac mae rhyw 800 o wahanol ieithoedd yn cael eu siarad yno. O gofio'r drafferth gaiff rai yng Nghymru i ddygymod â dwy iaith, nid yw'n anodd dychmygu'r anawsterau.

Felly, trwy gyfrwng y camera a'r cyfrifiadur, cawsom brofi ychydig o ryfeddodau gwlad bell sydd mor annwyl i Bethan a gweld wynebau'r ffrindiau lu sydd ganddi yno. Ac wynebau llon y ffrindiau hyn sy'n aros yn y cof. Mae Bethan yn annwyl iawn i ni yn yr ardal hon, ac mae'n amlwg bod ei natur siriol a chymwynasgar yn ennill ffrindiau iddi ymhobman. Hyfryd yw meddwl bod pobl ochr draw'r byd yn cyfrif Bethan yn ffrind iddynt hefyd!



*Gyda'i mam, Ann,
a'i brawd Eurig*



*Gyda dau o drigolion Goroka,
yn eu gwisg ryfel draddodiadol*

Dewch am dro.....

Mary Jones

Rwy'n mynd am dro, dim ond milltir yw e, a milltir yn ôl, wrth gwrs. Ar ôl dechrau o flaen "Y Bowls", Penyrheol, rwy'n dilyn y tle lawr i fynedfa Hendredenni a lan hebio ysgol yr Hendre. Nawr mae eisiau croesi'r ffordd osgoi ar y bont droed ac wedyn yn syth i lawr Heol Sant Cenydd. Nesaf, ar ôl mynd hebio Ystâd Ddiwydiannol Treceenydd ar y chwith, mae goleuadau traffig i 'w gweld wrth fferm y Beddau (Martin's Farm). Rwy'n mynd yn syth ymlaen o hyd wrth anelu am Ganolfan y Glowyr (yr hen ysbyty) yr ochr draw i Heol Martin Sant. Ffordd ryfedd i gerdded, mae'n siŵr, ond yn ystod y daith rwy'n croesi pedair hen reilffordd - ond dewch yn ôl i'r dechrau i fi gael egluro.


Ganrif yn ôl roedd map cymoedd De Cymru fel powlen o spaghetti. Roedd llinellau rheilffordd lan bob cwm, yn aml y ddwy ochr, a mwy yn croesi o un cwm i'r llall er mwyn cario glo i Gaerdydd, Casnewydd a'r Barri. Ffurfiwyd amryw gwmnïau i'w hadeiladu, rhai yn fwy llwyddiannus na'i gilydd.

Yn ôl â ni i gerdded o'r Bowls. Ar y chwith mae rhes o dai o'r enw Station Terrace ac yn syth ar ôl y tŷ olaf gwelir safle hen bont. Hon oedd y lein oedd yn dod i lawr o Gwm yr Aber i Gaerffili drwy'r "Aber Valley Junction". Daeth y lein hon fel canlyniad i suddo pyllau glo'r Universal a'r Windsor yn bellach lan y cwm. Wrth edrych o safle'r bont a lan y cwm heddiw gwelir llwybr seiclo Cwm yr Aber, ac wrth edrych i lawr gwelir y safle lle bu gorsaf Penyrheol (a welir yn y llun) a ffordd osgoi gogledd Caerffili. Dim ond dwy orsaf oedd ar y lein rhwng Senghennydd ac Aber Valley Junction, sef Abertridwr a Phenyrheol. Roedd y lein yn sengl ac yn ôl pob sôn, yn araf iawn, yn enwedig erbyn y chwe degau pan gaewyd y lein. Trueni i'r ffordd hon o deithio gau o weld yr holl geir sy'n heidio i lawr y cwm bob bore.



Roedd gorsaf Penyrheol wrth y rhes o dai i'r chwith ar y ffordd sy'n arwain o'r Bowls. Gwelir olion traphont Penyrheol ganol yr ochr dde

Ymlaen â ni. Roedd hewl Sant Cenydd yn croesi dros bont lle mae cylchdro'r Hendre erbyn hyn ac mae ffordd osgoi gogledd Caerffili yn dilyn cwrs hen lein "Y Barri". Dyma'r lein mwyaf diweddar a mwyaf dramatig. Erbyn blynyddoedd cyntaf yr ugeinfed ganrif roedd rheilffyrdd yn eu hanterth oherwydd y diwydiant glo, ac elw mawr i'w wneud. Wrth edrych i'r chwith i gyfeiriad Pwll y Pant, mae'r ffordd yn disgyn a chodi, ond nid felly yn nyddiau "Y Barri". Roedd traphont Penyrheol yn cadw'r



Dyma lun o draphont Pwllypant yn arwain draw o fan uwchben gwesty Y Fron' at chwarel Trehir sydd erbyn hyn yn safle ailgylchu Pandy Road.

cledrau'n wastad (gweler yr olion ar y dde yn y llun uchod o orsaf Penyrheol). Lle mae'r bont droed bu pont heol yn uno Court Road â Heol Pwll y Pant yn croesi'r cledrau. Fel mae'r hewl yn disgyn i mewn i Bwll y Pant, roedd y rheilffordd yn mynd bant i'r chwith ac o dan Heol Pwll y Pant. (Mae'r wal frics i'w gweld o hyd.) Wedyn rydym yn cyrraedd un o olygfeydd mwyaf trawiadol Cwm Rhymni - traphont Pwll y Pant (gweler y llun). Mae un bwa i'w weld o hyd. Wrth gerdded i lawr wrth Afon Rhymni gellir gweld olion y pileri a ddymchwelwyd yn ystod y tri degau. Yna, yn y cyfeiriad arall, roedd y lein yn anelu tuag at Heol Nantgarw ac wedyn oddi tani i ymuno â "Upper Penrhos Junction". Mae'r olion yn dal yn y golwg ar bwys Siop Fferm Beech Tree (gweler y llun nesa). Dim ond am ddeng mlynedd ar hugain y parhaodd y fenter hon, o eiddo cwmni "Y Barri".



Dyma bileri traphont rheilffordd Y Barri oedd yn arwain tuag at Ffynnon Taf a draw i'r Barri.

Wedyn, awn i gerdded o'r lein fwyaf diweddar i'r un hynaf. Mae'r bont nesaf yn eithaf amlwg o hyd ac mae hi i'w gweld ond ychydig cyn goleuadau Heol Nantgarw/ Heol Sant Cenydd. Mae'r rheilffordd yma yn dyddio o'r un wyth pum degau. Dyma'r ffordd wreiddiol i'r trên ddod o Gaerdydd, cyn adeiladu twnnel Thornhill yn yr un wyth saith degau. Mae rhes o dri bwthyn yn dal i wynebu'r man lle'r oedd y lein. Ychydig yn agosach at Gaerffili mae tafarn y "Station". "Caerphilly Station Hotel" oedd ei henw tan yn ddiweddar ac roedd yr enw yn cyfeirio at yr orsaf a oedd ychydig y tu ôl iddi. Dyma'r unig orsaf a'r unig reilffordd yn y dref am bron i ugain mlynedd ac yno y gorffennai'r cledrau. Yn y cyfeiriad arall dyma'r lein yn ymuno â "Penrhos Upper Junction", ymlaen i fan uwchben pentref Nantgarw a bant wedyn i Gaerdydd heibio i Dongwynlais.

Ymlaen â ni i groesi Heol Nantgarw gan agosáu tua diwedd y daith. Mae'n rhaid oedi islaw Canolfan y Glowyr ac ar y dde mae llwybr yn arwain trwy'r ystâd dai y tu ôl i'r hen ysbyty. Dyma gwrs y lein a oedd yn dod o Bontypridd, heibio Caerffili ac ymlaen i Gasnewydd. Doedd dim pont ond "level crossing" a "signal box" Watford a'r trên yn dilyn gwaelod gerddi'r tai ar ochr ogleddol Heol Martin Sant ac yna i mewn i'r orsaf. Wedyn arferai'r lein fynd ymlaen dros Van Road, Gwern y Domen ac i lawr i Gasnewydd. Tuag at Bontypridd mae Llwybr Taf yn dilyn hen gwrs y lein uwchben yr A470. Mae'n ffordd hyfryd i'w cherdded o dan y bont a gariai'r Heol Nantgarw wreiddiol. Dyma safle gorsaf Nantgarw ond does dim arwydd ohoni bellach.

Dyma ni ar ddiwedd ein taith. Dyw hi ddim yn debygol y bydd yr hen reilffyrdd hyn yn ailagor ond erbyn hyn rydym yn dechrau sylweddoli'r fath golled fu colli'r rhain i'r gymuned a'r amgylchedd. Cawsant eu hadeiladau ar gyfer elw ac nid er mwyn gwasanaethu'r bobol. Does dim byd yn newid.



Dyma'r "signal box" a'r "level crossing" ger yr hen ysbyty ac yn y pellter gwelir y caeau lle mae tai Lon y Llyn nawr.

"Cwmnï" Ar-lein

Am nad oedd hi'n bosib dosbarthu'r papur bro yn ystod argyfwng y Cofid 19 ni chafodd y papur ei argraffu o gwbl ond, yn hytrach ei yrru atoch ar-lein. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i ni lynu at y trefniadau hyn tan y flwyddyn newydd.

Mae nifer o bobol wedi dweud ei bod yn well ganddynt dderbyn y papur fel hyn gan ei fod yn fwy lliwgar. Hefyd mae hyn wedi golygu llai o waith i'r sawl sydd yn cynhyrchu'r papur ac yn llai costus.

Byddai'n beth da hefyd o ran yr amgylchedd petawn yn gyrru mwy allan ar-lein.

Wrth gwrs, mae croeso i chi argraffu papur neu ran o'r papur at eich dibenion personol.

Beth amdani felly? Os hoffech chi ddal i dderbyn y papur yn electronig pan fyddwn yn argraffu eto, rhowch wybod i'r golygydd ar

benamary2000@yahoo.co.uk

02920862428 a galwad neu neges destun ar 07891916046



Diolch i'r cyfaill Dafydd Islwyn a ddaeth o hyd i gopi o'r hyn oedd, o bosib, yn bapur bro cynta'n hardal sef, "Papur Bro Ifor", Rhagfyr 1990. Anhysbys yw awduron mwyafrif yr erthyglau ond mae'r golofn olygyddol yn dweud wrthym mai yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni y cyhoeddwyd y papur. Mae'r golofn honno yn agor yn fuddugoliaethus wrth gyfeirio at y Genedlaethol yr haf hwnnw, "Does dim amheuaeth nad yw'r Eisteddfod wedi rhoi nerth o'r newydd i Gymreictod Cwm Rhymni. Mae tystiolaeth bendant ar gael fod y nifer o bobol sydd am ddysgu'r Gymraeg wedi cynyddu'n drawiadol, a hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r Eisteddfod".

Y prif bennawd ar y dudalen flaen yw'r "Cysgod Dros y Cwm" sy'n delio â'r bygythiad o "ddwy fil o gasgenni o wastraff ymfflamychol a thra gwenwynig" ar stepen drws trigolion pen ucha Cwm Rhymni. A does dim ofn mynd i'r afael â phynciau dadleuol eraill fel y gwelir dan y pennawd, "*Is the Welsh Language Dead?*" a'r ateb digyfaddawd, "Wrth gwrs nad yw hi!". Ac wrth restrir digwyddiadau sy'n sicrhau parhad ein hiaith daw'r paragraff cadarnhaol, "Felly, nid yw'r iaith Gymraeg wedi marw o bell ffordd; i ddweud y gwir, mae hi'n tyfu'n gryfach bob dydd. Efallai, y daw Cymraeg yn iaith y cwm yn y dyfodol, ac os felly, gall yr haneswyr edrych yn ôl a gweld ein hysgolion a'n canolfannau Cymreig fel y prif ddylanwad ar dwf yr iaith."

Yn "Tanchwa Senghennydd" cawn yr hanes am 400 yn troi i fyny yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ar y 14eg o Hydref i ddiolch am gyhoeddi'r llyfr sy'n rhestru bywydau'r dynion a'r bechgyn a gollodd eu bywydau mor erchyll fore'r 14eg o Hydref 1913. Mewn erthygl bellach cawn wybod taw Mr Basil Phillips a Mr David Parry a wnaeth yr ymchwiliadau manwl i sicrhau cofnod deilwng o bob bywyd a gollwyd.

Mae Merched y Wawr Caerffili (nid Cwm Rhymni, sylwer) yn cyhoeddi eu rhaglen o fis Tachwedd hyd y mis Mai canlynol. Ynddi gwelwn fod y "merched" yn ymuno â changen Ystrad Mynach ym mis Chwefror - dwy gangen yn y cwm felly, yr adeg honno! Ceir adroddiad cynhwysfawr am weithgareddau "Clwb y Cwm" newydd hefyd gan resi'r siaradwyr a ddaeth i annerch aelodau Cylch Llenyddol Bro Elyrch. A phwy all anghofio'r traffig oedd yn ceisio teithio drwy Lanbradach yn y dyddiau cyn y ffordd osgoi, bron i ugain mlynedd yn ôl? "Tagfa Llanbradach" yw teitl yr erthygl.

Caiff dwy erthygl eu neilltuo ar gyfer gwybodaeth am ddwy ddawns-wraig dalentog oedd yn byw yn y cwm yr adeg hon. Mynychodd y ddwy, Bethan Mogford a Ceri Parker, Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ar eu ffordd i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. A nos Wener, Ionawr y 18fed roedd Clwb y Cwm yn trefnu Twmpath Dawns yn Y Savoy, Bargoed.

Llwyddwyd cael busnesau lleol ac eraill i hysbysebu yn y papur: Lyn Tudor sy'n cynnig "Llongyfarchiadau ar Dychweliad Eich Papur Bro". (Dychweliad o beth? A fu yna rifyn yn blaenori hwn? Oes unrhyw un yn gwybod?) Yna mae Gwynn's Garage, y deintyddion Peter Jones a Stephen Lesser sy'n cynnig "Croeso arbennig" i blant ysgol i'w meddygfa yn Heol Penallta, Ystrad Mynach. Hefyd, y fferyllwyr Rhydian ac Ailsa Morgan yn Heol Bedwlwyn. Ac mae 'Cerdd Cwm Cynon' yn cynnig gwersi piano neu organ, TGAU neu Lefel A Cerddoriaeth a Chyfrifiadureg.

Cynigir geirfa ar gyfer dysgwyr wrth danlinellu rhai o'r geiriau mwyaf anodd mewn ambell erthygl gan atodi'r cyfieithiad tua diwedd yr eitem. Ond gwael iawn yw ansawdd rhai o'r lluniau sy'n dangos cymaint mae technoleg gwybodaeth wedi datblygu yn y deng mlynedd ar hugain diwethaf. Mae hefyd yn tanlinellu mor anodd oedd hi i gynhyrchu papur fel "Papur Bro Ifor" ym mis Rhagfyr 1990. Diolch am yr ymdrech fawr a wnaed.

Y Golygydd

AR DDARLLEN DAN Y WENALLT AM Y TRO CYNTAF

(Mewn ymateb i erthygl yn rhifyn mis Gorffennaf, gan un a siomwyd i'r papur bro gynnwys y fath beth!!)

Ni ddaeth popeth da o'r gogledd,
Oes rhaid goddef dro'r ôl tro
Hen sylwadau cas a gwawdlyd
Am dafodiaeth bêr ein bro?

Ni ddaeth popeth da o'r gogledd,
Popeth o'r gogledd nid yw'n wiw,
Geiriau'r Cofis sy'n ddirgelwch
A sain yr U, mor anodd yw.

Ni ddaeth popeth da o'r gogledd,
Nid gog pob llenor na phob bardd,
Cardi oedd y Dafydd ap Gwilym
A garodd ferched hwntw hardd.

Ni ddaeth popeth da o'r gogledd,
Cododd y sowth ei beirdd di-ri,
Waldo, Gwenallt, Robert Powell
A Mererid Hopwood fawr ei bri.

Ni ddaeth popeth da o'r gogledd,
Wrth gyfieithu Dylan T
A'i ddrama i leisiau am Dalacharn,
Pa dafodiaith ddewisech chi?

Daeth rhai pethau gwael o'r gogledd,
Ymfudwyr ddaw o'r gogledd pell,
Gwawdio ymadroddion hwntw,
Meddwl bod eu hiaith nhw'n well.

Os am fod mewn cwmni drama,
Gwell ymarfer tipyn bach,
Ac os daw'r ddrama o'r deheudir
Dysger sut i ynganu'n iach!

Cafodd hwntws fwy na digon
O ogleddwyr hy eu sen,
Digon gawsom drwy'r canrifoedd
A daeth amser dweud AMEN

Dyma flas o rhai o'r llyfrau y bu aelodau Clwb Cwmni yn eu darllen yn ystod cyfnod y cloi

Rhai o'r Hen Glasuron

Bu'r hamdden orfodol yn gyfle i ailymweld â llyfrau sydd erbyn hyn yn hen gyfeillion. Rhaid cyfaddef mai addasiad ar gyfer plant oedd fy nghopi o 'Rhys Lewis', Daniel Owen, ond yr un oedd y blas o ailgyfarfod â chymeriadau sydd ymhlith y mwyaf adnabyddus yn llenyddiaeth ein gwlad. Difyr oedd darllen eto am Robyn y Sowldiwr â'i ysgol lle talai'r disgyblion am eu haddysg â "rivets". Roedd Wil Bryan yn dal â'i ddrygioni drwy droi cloc y capel ymlaen tra roedd llygaid yr hen Abel Huws ar gau tra'n gweddïo. Cefais hefyd fwynhau'r hanesion am Thomas a Barbara Bartley, yn enwedig ymweliad Thomas â'r Bala lle cafodd gyfle i rannu ei ddoethineb unigryw â'r myfyrwyr diwinyddol. Difyr hefyd oedd darllen storïau amrywiol Daniel Owen yn "Straeon y Pentan".

Mae nofelau T. Rowland Hughes yn sefyll ochr yn ochr â gwaith Daniel Owen fel rhan o glasuron llenyddol y genedl. Diddorol yw darllen am streic chwarelwyr Gogledd Cymru a barhaodd am dair blynedd ddechrau'r ganrif o'r blaen. Mae'r caledi a'r dioddef yn erchyll, heb sôn am ddewrder y gweithwyr a safodd yn erbyn yr Arglwydd Penrhyn yn fyw iawn yn nhudalennau "Chwalfa" a "William Jones".

Mae T. Rowland Hughes yn symud ymlaen i dri degau'r ganrif o'r blaen yn ei glasur "William Jones". Mae'r cymeriad canolog yn cefnu ar fyd y chwareli wrth ffarwelio â'i wraig ddiddim Leusa, gydag un o ddyfyniadau mwyaf enwog ein llenyddiaeth, "Cadw dy blydi chips!" Mae'r awdur yn cymharu'r "Northman" â glowyr cymoedd y Rhondda gan wrthgyferbynnu Cymraeg dau begwn y wlad. Gwelwn fel y daw i dderbyn, wedyn hoffi ac yna edmygu'r glöwr a'i gymuned. Mae'r bennod amdano yn ymuno â'r côr lleol i berfformio Meseia Handel yn arbennig o gofiadwy.

Nawr, 'sgwn i alla i ddod o hyd i 'nghopi o "O Law i Law", llyfr cyntaf T. Rowland Hughes?

Ben Jones

COLOFN Y DYSGWYR

Ann Lewis

Y mis yma, mae'n hyfryd cael cerdd gan rywun o'n cymuned ni. Aeth Jenni Jones-Annetts ar wyliau i Croatia ychydig cyn i'r pandemig gloi llawer gwlad yn Ewrop. Roedd tipyn o bryder am ddod adref ond fe gyrhaeddodd nôl yn ddiogel. Mae'r gerdd arbennig yma yn disgrifio'r profiad gafodd hi. Diolch am rannu'r gerdd Jenni.

cloi : lock tipyn o bryder : a lot of worry profiad : experience

Clywed am Covid 19

yn croesi sawl ffin. *ffin : border*

Hedfan dramor!

Gwestai gwyh ar y daith.


Ond Sky a ddaeth

â newyddion drwg.

Bosnia – cofio'r galar – *galar : grief*

ond heddi ym Mostar

y bont yw arwydd concro. *arwydd concro : the sign of conquering*



Montenegro hardd.

Awen i fardd

awen : poetic inspiration, muse

a hafan i ni.

hafan : refuge

Hynt a helynt Corona

yn galw 'Cer o'ma!'

cer o'ma : go away


Ond cau pob ffin!!

O'r diwedd daeth galwad.

Rhyddhad! Caniatâd

rhyddhad : relief caniatâd : permission

i ni hedfan.



Adre'n ddiogel

a gorfod arddel

arddel : accept

YNYSU!

ynysu : isolation

Dim cwrdd, cwtsh na chapel

ond cyfle i ochel

i ochel : to avoid

y feirws.

Cyfle newydd i ddysgu

ac addasu.

addasu : to adapt

Cadw'n ddigidol, cadw'n ddiogel.

Cyfrif mawr y glöynnod byw

Pa enw sy'n well 'da darllenwyr Cwmni, tybed – glöynnod byw, ieir bach yr haf, pili-palas.....? Ac ydych chi'n adnabod y rhywogaethau gwahanol o'r creaduriaid bach hardd yma sy'n ymweld â'n gerddi ni yn ystod yr haf? Mantell paun, trilliw bach, gweirlöyn y ddôl....dyma rai o'r pili-palas sy'n cael eu cynnwys yn y siart Gymraeg rydych chi'n gallu lawrlwytho o wefan www.bigbutterflycount.org.



Mae newid hinsawdd, colli cynefin a llygredd amgylcheddol yn effeithio'n fawr ar niferoedd y glöynnod byw ymhobman. Nod y cyfrif mawr yw darganfod sut maen nhw'n dod ymlaen ym mhob ardal yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae siartiau ar gael yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg Iwerddon i'n helpu ni i'w hadnabod nhw.

Mae pili-palas yn hedfan pan mae'r haul yn dod allan. Os am gymryd rhan yn y cyfrif, rhaid i chi dreulio dim ond 15 munud mewn llecyn heulog mewn gardd neu barc, er enghraifft. Gan ddefnyddio'r siart, nodwch sawl glöyn byw o bob rhywogaeth a welwch chi. Gallwch chi lawrlwytho'r ap i'ch ffôn symudol chi neu ddefnyddio copi papur o'r siart ac anfon y canlyniadau'n ôl ar y wefan. Mae'r cyfrif yn parhau tan Awst 9fed ac y gallwch chi wneud hyn gymaint o weithiau ag y mynnoch.

Beth amdani? Mwynhewch!

Jan Penney

Newyddion da!

Mae swyddogion capeli Bethel a Thonyfelin am i ni rannu'r datganiad hwn gyda chi.....

Bwriedir ail-ddechrau oedfaon ar gyfer cynulleidfaoedd Bethel a Thonyfelin ar Sul cyntaf mis Medi. Bydd yr oedfaon yn Nhonyfelin am y mis cyntaf ac yn y bore yn unig. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa o fis i fis ac wrth gwrs yn dilyn y canllawiau COVID a fydd yn eu lle ar y pryd.

PWYLLGOR a SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: Meter IaithSir Caerffili.cymru/



e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru